**Y Gwir Anrh/Rt Hon Carwyn Jones AC/AM**
**Prif Weinidog Cymru/First Minister of Wales**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf/Our ref:FM -/00030/15

Meri Huws

[redacted]

28 Ionawr 2015

Annwyl Meri

Rwy'n ysgrifennu atoch mewn ymateb i'ch llythyr dyddiedig 13 Ionawr ynglŷn â Pholisi Gorfodi Comisiynydd y Gymraeg. Diolch i chi am anfon copi o'r Polisi at Weinidogion Cymru i'w ystyried. Rwy'n deall gan fy swyddogion eich bod yn awyddus i gyhoeddi'r Polisi cyn diwedd y flwyddyn ariannol gyfredol. Rydym yn ystyried cynnwys y polisi ar hyn o bryd.

Gan droi at yr ail fater yn eich llythyr, sef diwygio Adrannau 21 a 22 Mesur y Gymraeg i newid y berthynas rhyngddoch chi a Swyddfa Archwilio Cymru a'r Archwilydd Cyffredinol. Bydd Gweinidogion Cymru yn ystyried hyn ymhellach ac yn holi barn Swyddfa Archwilio Cymru a'r Archwilydd Cyffredinol. Gallaf gadarnhau fodd bynnag, os bydd Gweinidogion Cymru yn cyflwyno'r gorchymyn angenrheidiol o dan Fesur y Gymraeg, y byddai gofyn dilyn trefn gadarnhaol a gosod y gorchymyn am gyfnod cyn cael pleidlais lawn yn y Cynulliad Cenedlaethol. Fe fydd fy swyddogion yn hapus i drafod yr amserlen yma gyda chi er mwyn ystyried oblygiadau ar gymeradwyo'r Polisi.

Yn olaf, rydych yn gofyn i mi gadarnhau'r amserlen ar gyfer cychwyn Rhan 5 Mesur y Gymraeg. Mae Gweinidogion Cymru wedi amserlennu cychwyn Rhan 5 erbyn mis Medi 2015. Mae'r amserlen hwn yn cymryd i ystyriaeth y dyddiad y bydd y set gyntaf o safonau yn dod i rym os bydd y Cynulliad yn eu cymeradwyo, a'r ffaith bod adran 46 o'r Mesur yn nodi y bydd y diwrnod gosod o leiaf 6 mis wedi i'r hysbysiad cydymffurfio cael ei ddyroddi.

Yn gywir

**CARWYN JONES**

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

English Enquiry Line 0845 010 3300
Llinell Ymholiadau Cymraeg 0845 010 4400
Ffacs * Fax 029 2082 1879
YP.PrifWeinidog@cymru.gsi.gov.uk •
ps.firstminister@wales.gsi.gov.uk